Marian McSeveney
Prosiect ISLES II a Pholisi Grid Trydan
Y Gyfarwyddiaeth Ynni a Newid Hinsawdd
Llywodraeth yr Alban

marian.mcseveney@scotland.gsi.gov.uk
cc islesproject@scotland.gsi.gov.uk

15 Ebrill 2015

Annwyl Marian

**Ymgynghoriad ar Gynllun Gofodol Drafft ac Arfarniad o Gynaliadwyedd ISLES**

Diolch ichi am ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru) ar y Cynllun Gofodol Drafft (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y Cynllun') a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Gwneir sylwadau CNC yng nghyd-destun ein rôl yn gorff ymgynghori dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, yn Gorff Gwarchod Natur Statudol dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd), a'r rheini fel y'u diwygiwyd ymhellach gan baragraff 189 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013, ac yn gynghorwyr i Lywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â threftadaeth naturiol Cymru a'i dyfroedd arfordirol.

Gwneir sylwadau CNC ar y Cynllun a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ddiduedd o ran unrhyw gyngor y gall CNC ei roi ar brosiectau gosod ceblau unigol a all gael eu cyflwyno ar ôl mabwysiadu'r Cynllun neu unrhyw benderfyniad y gall fod gofyn i CNC ei wneud ar ran Llywodraeth Cymru yn Awdurdod Trwyddedu Morol i ddyfroedd Cymru. Gwneir ein sylwadau yng nghyd-destun ein cyfrifoldebau i Gymru ac maent felly'n canolbwyntio ar yr effeithiau posibl ar dderbynyddion yn nyfroedd Cymru.


Mae CNC yn croesawu ac yn cefnogi'r dull strategol o ddatblygu ymhellach seilwaith ceblau y mae prosiect *'Towards Implementation'* ISLES II yn anelu at ei gyflawni, a chred ei fod yn fecanwaith gwerthfawr ar gyfer lleihau risgiau amgylcheddol a risgiau caniatâd. Cred CNC hefyd fod y dull Arfarnu Cynaliadwyedd, ar y cyfan, yn sail i archwiliad cynhwysfawr o'r effeithiau posibl a'r mesurau sy'n ofynnol i leddfu unrhyw effeithiau.

Mae CNC yn fodlon ar gasgliadau cyffredinol Adroddiad Amgylcheddol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) y Cynllun i'r graddau y mae'r rheini wedi'u nodi. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud nifer o sylwadau am gwmpas y Cynllun a'i weithredu yn y dyfodol, ac ar yr AAS a'r ARhC. Rydym wedi ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y llythyr ymgynghori yn atodiad I ac wedi ymhelaethu ar ein sylwadau ar y Cynllun, yr AAS a'r ARhC ar wahân yn atodiadau II, III ac IV yn y drefn honno.

Dylid darllen ein sylwadau am y Cynllun, Adroddiad Amgylcheddol yr AAS a'r ARhC ar y cyd â'n sylwadau mewn ymateb i ymgynghoriad ar adroddiad cwmpasu'r AAS ac ar adroddiad asesu cyn-sgrinio'r ARhC a gyflwynwyd i chi ar 7 Tachwedd. Yn benodol, wrth gwblhau'r asesiadau, gall fod yn ddefnyddiol cyfeirio at y ffynonellau gwybodaeth a ddyfynnwyd yn yr ymatebion hyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn, cysylltwch â’n Rheolwr Cynghori Diwydiannau Morol, Andrew Hill yn andrew.hill@naturalresourceswales.gov.uk (ffôn 03000 653808). Sylwch y dylai ymgynghori ffurfiol yn y dyfodol ar y Cynllun, gan gynnwys unrhyw adroddiadau ôl-fabwysiadu, gael ei gyfeirio at y Tîm Asesu Strategol yn CNC yn strategic.assessment@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Yn gywir / Yours sincerely



Rhian Jardine

Head of Sustainable Communities / Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk
Maes y Ffynnon, Ffordd Penrhos, Bangor, Gwynedd, LL57 2DW

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Correspondence welcomed in Welsh and English.

**Atodiad I. Cwestiynau'r ymgynghoriad**

*1) A ydych yn cytuno â'r dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r Cynllun? A oes agweddau ar y Cynllun Drafft y dylid eu gwella, yn eich barn chi? A oes unrhyw agweddau y dylid mynd ymlaen â hwy'n wahanol, yn eich barn chi?*

Mae CNC yn frwd gefnogi dull strategol o gynllunio ac asesu seilwaith ceblau newydd.

Rydym yn poeni bod y Cynllun wedi ystyried yr effeithiau posibl ar yr amgylchedd morol yn unig, ac nad yw'n ystyried o gwbl unrhyw effeithiau ar yr amgylchedd daearol pe byddai unrhyw seilwaith trosglwyddo ymlaen ychwanegol yn ofynnol o ganlyniad i'r Cynllun.

Heblaw hynny, rydym yn fras gefnogi'r dull integredig a ddefnyddiwyd i gynllunio ac asesu cynaliadwyedd, ond rydym wedi gwneud nifer o sylwadau ar y Cynllun yn atodiad II.

*2) A oes gennych unrhyw farn am ganfyddiadau'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd? A ydych yn credu bod yr holl effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol (cadarnhaol a negyddol) wedi'u nodi? A oes materion eraill neu ddewisiadau amgen y dylid eu hystyried?*

Trowch at ein sylwadau yn Atodiadau III a IV.

*3) Mae'r Adroddiad Effaith Economaidd-gymdeithasol wedi nodi amrywiaeth o effeithiau posibl ar ddefnyddwyr presennol y môr. A oes gennych unrhyw farn am y canfyddiadau hyn? A ydych yn credu y byddai'r mesurau lliniaru a gynigir yn effeithiol? A oes gennych unrhyw awgrymiadau ychwanegol?*

Nid oes gennym unrhyw sylwadau am yr adroddiad effaith economaidd-gymdeithasol.

*4) A ydych yn cytuno bod y Cynllun yn arf defnyddiol ar gyfer mwy o gydlynu rhwng y gweinyddiaethau Partner? Cofiwch gynnwys unrhyw awgrymiadau sydd gennych i wella'r cydlynu hwn ymhellach yn y dyfodol.*

Ydyn. Serch hynny, byddai'n ddefnyddiol egluro'r berthynas rhwng y *Grŵp Llywio Gweithredu* a nodir yn y Cynllun (adran 4.2), y *Grŵp Llywio Adolygu Cynlluniau* (a nodir yng Nghwestiwn 6 isod) a'r *Grŵp Llywio* a nodir yn yr ARhC (Adran 11) ac union rôl pob grŵp, neu a ydynt yr un fath â'i gilydd.

Croesawir yn benodol greu grŵp/pwyllgor llywio ISLES cyffredinol yn fesur i liniaru effeithiau posibl y Cynllun, a bydd hwn yn ffactor pwysig i sicrhau bod casgliadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn parhau'n ddilys. Mewn gwirionedd, fel mesur lliniaru y dibynnir arno er mwyn i'r ARhC ddod i gasgliad o ddim effaith andwyol ar gyfanrwydd safle, bydd y Grŵp Llywio'n ofyniad angenrheidiol ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun. Byddem felly'n croesawu eglurhad ynghylch sut a phryd y bydd y grŵp llywio'n cael ei gynnull, ac am ei gylch gorchwyl.

*5) A ydy'r cynllun yn darparu trefniadau addas ar gyfer monitro effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol yn ystod gweithredu'r Cynllun? Os nad yw, dywedwch pam ac awgrymwch sut y gellid gwella hyn.*

Mae'n debyg fod y dasg o fonitro effeithiau'r Cynllun yn perthyn, yn rhannol o leiaf, i'r Pwyllgor Llywio Gweithredu ISLES arfaethedig (Adran 4.2). Mae angen gwybod rhagor am y pwyllgor llywio, ei gylch gorchwyl, sut byddai'n gweithredu a chael ei adnoddu ond, mewn egwyddor, mae'r dull hwn fel petai'n gallu darparu'r mecanwaith angenrheidiol.

*6) Dylai'r Cynllun, os caiff ei weithredu, gael ei adolygu i ystyried datblygiad gwirioneddol a gwybodaeth gynyddol am ffactorau datblygu. Yn eich barn chi, pa mor aml ddylai hyn gael ei wneud a pham? Yn eich barn chi, pwy ddylai fod yn rhan o'r Grŵp Llywio Adolygu Cynlluniau, i oruchwylio'r broses adolygu?*

Dylid adolygu'r Cynllun yn aml ac yn ddigon cyson er mwyn ystyried newidiadau i weithgarwch gosod ceblau a ragwelir, yn enwedig wrth i brosiectau unigol ddod yn eu blaenau, ond hefyd mewn ymateb i ganfyddiadau'r gwaith gofynnol o fonitro'r Cynllun. Mae gwaith cwmpasu ar brosiectau unigol wedi dechrau a dylai fod modd pennu sut a phryd y gall fod angen addasu'r Cynllun, ac yn hanfodol bwysig yr arweiniad sydd ynddo, wrth i brosiectau ddatblygu. Yn ogystal, dylai'r Cynllun fod yn sensitif i newidiadau mewn cynlluniau datblygu eraill a allai arwain at seilwaith ynni lle bydd y gallu i drosglwyddo trydan yn ofynnol.

Yn ogystal â phartneriaid y Cynllun, mae'n bwysig ceisio cael cyfranogiad y gwledydd eraill hynny y byddai disgwyl iddynt wneud lle i seilwaith ceblau. Pe byddai seilwaith ceblau yn dod drwy Gymru neu'n glanio yng Nghymru, a ninnau'n gynghorwr i Lywodraeth Cymru ar dreftadaeth naturiol a dyfroedd arfordirol Cymru, ac yn awdurdod â chyfrifoldeb dirprwyedig am gyhoeddi Trwyddedau Morol yn nyfroedd Cymru, byddai'n briodol i CNC fod yn aelod o'r grŵp (a grwpiau llywio eraill a nodir pe byddent yn wahanol). Fodd bynnag, byddai angen i unrhyw ymglymiad gan CNC fod yn amodol ar argaeledd gallu ac anghenion gwaith arall â blaenoriaeth.

*7) A ydych yn ymwybodol o unrhyw waith ymchwil neu fonitro parhaus ychwanegol a allai helpu i lenwi bylchau yn y sail dystiolaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r amgylchedd morol a'i ryngweithiadau â cheblau trydan tanfor? Rhowch fanylion ffynonellau perthnasol ychwanegol.*

Nac ydym.

*8) A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y Cynllun a/neu'r asesiadau perthnasol?*

Trowch at ein sylwadau yn atodiadau II, III a IV.

**Atodiad II. Sylwadau CNC am y Cynllun.**

*Lleihau risg ar lefel prosiect*

1. Mae CNC yn deall nad yw llawer o'r wybodaeth am natur a lleoliad gweithgareddau prosiect ar gael ac y bydd adrannau caniatáu ac asesu mewn gwell sefyllfa i ystyried yr effeithiau posibl wrth i brosiectau gael eu cyflwyno. Mae hwn yn ddull dilys o ystyried natur lefel uchel y Cynllun, ond byddai'n fuddiol iawn ystyried effeithiau posibl y Cynllun yn fanylach.
2. I'r perwyl hwnnw, cred CNC y byddai'n ddefnyddiol ystyried ailadroddiadau ychwanegol o'r Cynllun, neu greu ail haen o gynlluniau, sy'n cwmpasu cynllunio ac asesu manylach fesul Ardal Lanio neu Rwydwaith. Fel hyn, gellid gwahaniaethu'n well rhwng y risgiau amgylcheddol a chaniatáu a chamau lliniaru addas a rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr.

*Canllawiau Lleoliadol a chymhwyso egwyddorion llwybro*

3. Mewn egwyddor, mae CNC yn frwd gefnogi'r canllawiau lleoliadol a'r strategaeth lwybro yn gymorth i gwmpasu prosiect ac yn fodd o leihau risgiau prosiect. Fodd bynnag, er bod CNC yn credu bod y canllawiau'n rhoi syniad o'r mathau o sensitifrwydd y gellid dod ar eu traws, nid yw'n ddigon manwl na chynhwysfawr i ddatblygwyr allu barnu'r risgiau sy'n gysylltiedig â lleoliadau glanio unigol, nac i gynllunwyr nodi'r opsiynau a ffafrir ar gyfer lleoli seilwaith ceblau.
4. Mae'r egwyddorion llwybro'n ffordd bwysig o amlygu'r dulliau bras y dylid eu dilyn wrth ddatblygu prosiect er mwyn lleihau neu osgoi effeithiau amgylcheddol. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut bydd cynllunwyr yn sicrhau y bydd yr egwyddorion yn cael eu cymhwyso ar lefel prosiect, yn enwedig ar ôl i brosiect ISLES II gael ei gwblhau, sef Mai 2015 hyd y deallwn ni. Nid ydynt felly'n rhoi unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd y bydd arfer da'n cael ei ddilyn.

*Asesu Lefel Prosiect*

5. Daw dogfen y Cynllun i'r casgliad y gall y Cynllun gael ei ddatblygu heb effeithiau amgylcheddol neu gymdeithasol sylweddol (Adran 3.2 tudalen 14). Er gellid dod i'r casgliad na fydd y Cynllun fel y'i diffinnir yn cael effeithiau amgylcheddol sylweddol, mae'r diffyg diffiniad llwybro ac, felly, y diffyg asesiad manwl, yn atal unrhyw gasgliad na fydd y datblygiad prosiect a allai ddilyn yn arwain at effeithiau sylweddol. Bydd hyn yn dibynnu ar asesu a lliniaru cadarn ar lefel prosiect, ac ni ddylai unrhyw gasgliadau sy'n cael eu llunio ar lefel cynllun amharu ar hyn. Dylai datblygwyr posibl gael gwybod felly y bydd angen asesiad manylach ar lefel prosiect a bydd hyn yn mynnu gwybodaeth sy'n ychwanegol at yr wybodaeth a gyflwynir yn y Cynllun a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.

*Cysylltu grid*

6. Y Cynllun yw cael rhwydwaith trosglwyddo trydan alltraeth cydgysylltiedig yn ardal forol y gwledydd partner a dyfroedd a morliniau Cymru, Lloegr ac Ynys Manaw. Er mwyn cysylltu seilwaith cyd-gysylltyddion ychwanegol â'r grid, efallai hefyd y bydd gofyn seilwaith trosglwyddo daearol newydd sylweddol neu un wedi'i uwchraddio y tu hwnt i'r seilwaith hwnnw sy'n ofynnol ar gyfer cysylltiad grid lleol ac sy'n gallu effeithio o ddifrif ar dreftadaeth naturiol. Ar hyn o bryd, ni ystyrir goblygiadau seilwaith o gyd-gysylltyddion newydd ar gyfer y rhwydwaith trosglwyddo grid daearol presennol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Cynllun i ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd glanio posibl. Dylai'r Cynllun ystyried y tebygolrwydd y bydd angen seilwaith trosglwyddo ymlaen ychwanegol yng Nghymru ac mewn mannau eraill ac, os felly, beth fydd y goblygiadau amgylcheddol yn y mannau hynny a sut gellir eu lliniaru. Trowch at ein sylwadau ar yr AAS, Atodiad III, paragraff 24.
7. Prin iawn hefyd yr ystyrir goblygiadau seilwaith (gorsafoedd trawsnewid etc) a fydd yn ofynnol mewn pwyntiau cysylltu grid. Gall seilwaith felly fod yn sylweddol o ran maint a

gallai'r Cynllun roi gwell syniad o ddewisiadau rhwydwaith amgen da pe byddai hyn yn cael ei ystyried. Byddai hyn hefyd yn helpu i liniaru rhag risgiau difrifol posibl y byddai angen mynd i'r afael â nhw drwy ganiatâd a chydsyniad daearol.

8. Nid yw'r Cynllun na'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cyfeirio o gwbl at Ddatganiad Deng Mlynedd Trydan y Grid Cenedlaethol sy'n anelu at egluro gofynion datblygu'r grid yn y dyfodol. Mae'r Datganiad yn ystyried gofynion grid alltraeth ac felly bydd yn bwysig ystyried unrhyw synergedd neu wrthdaro posibl â Chynllun ISLES.

*Polisi Cynllunio Cymru*

9. Mae dogfen y Cynllun yn disgrifio'r cyd-destun polisi sy'n berthnasol i'r ardal forol ond nid yw'n cyfeirio o gwbl at bolisi cynllunio Cymru a allai fod yn berthnasol y tu hwnt i'r Cynllun Morol Cenedlaethol arfaethedig (Adran 2.2). Bydd cysondeb â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru sy'n dod i'r amlwg yn hollbwysig, ond o ystyried y gallai'r Cynllun arwain at seilwaith ceblau daearol a rhynglanwol newydd sylweddol, mae hefyd yn bwysig ei fod yn llwyr adlewyrchu polisi cynllunio Cymru fel y'i diffinnir gan Bolisi Cynllunio Cymru (7fed Argraffiad, 2014) a'r Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) ategol yn ogystal â gofynion Cynlluniau Datblygu Lleol.
10. Dylai'r amcanion lleoliadol ar gyfer Asedau Materol a grynhoir yn y Canllaw Lleoliadol (Adran 2.2 tudalen 17) gynnwys cyfeiriad at yr angen i osgoi effeithio'n andwyol ar fesurau atal risg llifogydd, fel amddiffynfeydd arfordirol.

*Camau Gweithredu a Chamau Nesaf*

11. Cytuna CNC fod angen gwella ein dealltwriaeth o effeithiau ceblau ar yr amgylchedd, a hynny'n benodol mewn perthynas ag effeithiau grym electromotif (EMF). Fodd bynnag, mae'r Camau Polisi a ddisgrifir o dan Fylchau Casglu Data, Rhannu a Gwybodaeth, fel mesurau i gasglu, rheoli a lledaenu data, yn annhebygol o fod yn ddigonol i fynd i'r afael â'r bwlch gwybodaeth hwn. Mae angen ymchwil sylfaenol i hybu ein dealltwriaeth o'r mater, a allai fod yn holl bwysig o ystyried cymaint o weithgarwch gosod ceblau a allai ymddangos mewn ardaloedd lle mae rhywogaethau electro-sensitif yn debygol o fod yn bresennol.
12. Cytuna CNC y dylai penderfyniadau am brosiectau unigol ystyried yr egwyddorion llwybro a gwybodaeth berthnasol arall yn y Canllaw Lleoliadol. Mewn gwirionedd, bydd hon yn ffordd bwysig o sicrhau na fydd y Cynllun yn cael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd.

*Tirlun a Morlun*

13. Mae CNC yn croesawu'r egwyddor bod llwybrau ceblau alltraeth a chanolfannau casglu alltraeth yn osgoi ardaloedd lle byddent yn andwyol (Adran 8.3 tudalen 42), ond cred y dylai hyn ystyried <u>cymeriad</u> tirlun a morlun yn hytrach nag ystyried 'ardaloedd o werth amwynder uchaf' yn unig. Fodd bynnag, yr hyn a fyddai'n achosi'r pryder mwyaf fyddai effaith bosibl seilwaith cysylltu grid ar y tir, sy'n gallu bod yn fawr iawn ac y dylid ei leoli a'i ddylunio mewn modd priodol. Trowch at ein sylwadau am yr AAS, Atodiad III, paragraff 20.

*Canllaw i Ardaloedd Rhwydwaith*

14. Mae CNC yn croesawu'r disgrifiadau o'r Ardaloedd Rhwydwaith ac yn ystyried eu bod yn rhoi darlun cyffredinol defnyddiol o gymeriad pob ardal. Fodd bynnag, dylid egluro nad yw'r wybodaeth a ddarparir yn gynhwysfawr a dylai defnyddwyr gael yr wybodaeth angenrheidiol o'r ffynonellau gwreiddiol priodol. Er enghraifft, nid yw'r safleoedd cadwraeth natur a restrir ar gyfer ardaloedd sy'n gysylltiedig â Chymru wedi'u nodi'n gynhwysfawr ac nid yw'r disgrifiadau o dirlun a morlun yn cyfeirio o gwbl at asesiadau cymeriad tirlun pwysig sydd ar gael ar gyfer Cymru. Rydym wedi gwneud nifer o sylwadau am yr Asesiadau Ardal Rhwydwaith sy'n rhan o'r AAS a dylid ystyried y rhain wrth

gwblhau'r Canllaw Lleoliadol. Byddem yn eich cyfeirio hefyd at ein llythyr blaenorol dyddiedig 7 Tachwedd 2014 mewn ymateb i'r ymgynghoriad cwmpas AAS lle rydym yn amlinellu nifer o ffynonellau gwybodaeth y dylid eu hadolygu er mwyn cymeriadu nodweddion amgylcheddol Cymru a'r cyfyngiadau posibl yn gywirach.

*Deunydd Gwarchod Ceblau*

*15.* Bydd angen i effeithiau ychwanegu deunydd gwarchod ceblau gael eu harfarnu'n ofalus ar lefel prosiect pan fydd llwybrau cebl unigol yn hysbys a bydd angen osgoi ei ddefnyddio lle bydd difrod sylweddol i dderbynyddion sensitif yn cael ei ragweld o ganlyniad. Fel egwyddor gyffredinol, byddai CNC yn cefnogi cwtogi cymaint â phosibl ar ddeunydd gwarchod ceblau er mwyn cwtogi ar y deunydd sy'n cael ei osod yn yr amgylchedd morol. Trowch at ein sylwadau ar yr AAS, Atodiad III, paragraff 19.

*Rhywogaethau ymledol ac estron*

16. Mae lleoli seilwaith ychwanegol yn yr amgylchedd morol yn gallu arwain at greu arwynebau artiffisial a fydd yn cynnal poblogaethau o rywogaethau ymledol ac estron sy'n gallu cael effeithiau difrifol ar fioamrywiaeth frodorol neu bresennol arall. Nodir bod hyn yn risg posibl gan yr Asesiadau Generig yn yr AAS ond dylid ei ystyried hefyd yn effaith generig bosibl yn y Cynllun, wedi'i ategu gan argymhelliad yn y Canllaw i gynhyrchu asesiad risg / cynllun bioddiogelwch ar gyfer pob agwedd berthnasol ar weithgarwch gosod ceblau. Trowch hefyd at ein sylwadau ar yr ARhC yn Atodiad IV paragraff 40. Mae canllawiau defnyddiol i gefnogi asesiad risg bioddiogelwch wedi'u cynhyrchu gan y diwydiant olew a nwy a dylid eu defnyddio i lywio arfer gorau[1].

[1] *Alien Invasive Species and the Oil and Gas Industry. Guidance for Prevention and management.* IPIECA. 2010.

**Atodiad III. Sylwadau CNC ar yr AAS**

18. Daw'r ARHC i'r casgliad y bydd angen ARHC lefel prosiect er mwyn lliniaru effeithiau andwyol ac mae'n nodi'n glir y camau lliniaru allweddol y gallai fod angen eu mabwysiadu ar lefel prosiect. Dylai'r AAS hefyd gyfeirio'n glir at y gofyniad am ganiatáu ac asesu ar lefel prosiect er mwyn cyfiawnhau casgliad o ddim effeithiau andwyol.

*Asesiad Generig*

Ecoleg Fenthig a Rhynglanwol – Gweithredu ceblau morol

19. Cytuna CNC fod effeithiau mesurau gwarchod ceblau ychwanegol yn gallu arwain at greu neu golli cynefin (Adran 7.2 tudalen 33 paragraff 4) a bod presenoldeb arwynebau caled newydd yn gallu arwain at newidiadau mewn ymddygiad rhywogaethau ac ysglyfaeth. Fodd bynnag, mae'r adran hon hefyd yn datgan bod unrhyw gynnydd yn debygol o fod yn fach iawn oherwydd bydd mesurau gwarchod yn cael eu defnyddio lle nad yw'n bosibl claddu ceblau (e.e. ardaloedd is-haen galed) ac mae'r lleoliadau hyn eisoes yn debygol o gynnal cymunedau mwy amrywiol. Nid yw CNC yn cytuno â'r rhan olaf o'r datganiad hwn, sy'n awgrymu bod cymunedau is-haen galed yn llai sensitif am eu bod yn fwy amrywiol. Mae cymunedau is-haen galed yn gallu bod yn fwy amrywiol ond gallant hefyd gynnwys rhywogaethau sy'n eiddil, ac fe'u gwarchodir yn aml dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Nid yw hyn yn newid casgliadau cyffredinol yr asesiad ond dylid egluro y gall defnyddio mesurau gwarchod ceblau gael effeithiau annymunol ac y dylid cwtogi cymaint â phosibl ar hyn neu, os yw'n gwbl angenrheidiol, cyfyngu hynny i ardaloedd lle nad oes rhywogaethau felly'n byw.

Tirlun a Morlun

20. Gall fod seilwaith sylweddol ar y tir yn ofynnol er mwyn cysylltu ceblau â'r grid cenedlaethol. Dylid ystyried effeithiau posibl hyn. Ar gyfer asesu effeithiau posibl y Cynllun ar dderbynyddion Morlun a Thirlun yng Nghymru, byddem yn argymell bod y cynllunwyr yn cyfeirio at adroddiad ymchwil polisi Cyngor Cefn Gwlad Cymru 2009 ar forluniau yng Nghymru a'u sensitifrwydd i ddatblygiadau alltraeth yng Nghymru (gweler y ddolen http://www.ccw.gov.uk/landscape--wildlife/protecting-our-landscape/seascapes.aspx). LANDMAP yw'r dull a fabwysiadir yn ffurfiol i asesu tirlun yng Nghymru ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Mae gwefan LANDMAP yn cynnal gwybodaeth am fethodoleg LANDMAP, yn rhoi mynediad i'r holl wybodaeth LANDMAP a fu'n destun sicrhau ansawdd, naill ai drwy'r GIS ar-lein rhyngweithiol neu fel mapiau ac arolygon System Gwybodaeth Ddaearyddol i'w llwytho i lawr (trowch at: http://www.ccw.gov.uk/landscape--wildlife/protecting-our-landscape/landmap.aspx?lang=en). Dylai'r cynllun hefyd gyfeirio at Gynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol ac AHNE sydd hefyd yn nodi'r gofynion ar gyfer gwarchod y tirlun.

*Effeithiau ar Fioamrywiaeth*

21. Mae nifer o dderbynyddion bioamrywiaeth allan gyda chwmpas yr ARhC lefel cynllun ond yn cael eu gwarchod serch hynny gan gyfraith y DU. Mae'r rhain yn cynnwys Rhywogaethau sy'n cael eu Gwarchod gan Ewrop (EPS), rhywogaethau a chynefinoedd sy'n cael eu gwarchod yn genedlaethol, cynefinoedd a rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP), tirlun/morlun a diddordebau diwylliannol ac ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD). Er na fyddai'n briodol cynnwys ystyriaeth o effeithiau ar dderbynyddion felly yn yr ARhC lefel cynllun, rydym yn ystyried y gallai archwiliad strategol o'r materion hyn ar lefel y cynllun waredu meysydd posibl o anhawster i ddatblygwyr ar y lefel prosiect. Cyfeiriwyd ychydig bach at rai o'r asesiadau hyn yn y tablau effeithiau ar gyfer pob Ardal Rhwydwaith a deallwn ei bod yn anodd eu dadansoddi'n fanylach o ystyried lefel y rhagnodi gofodol ar gyfer gweithgareddau a ystyrir gan y Cynllun. Fodd bynnag, mae hyn yn amlygu ymhellach werth cynllunio

manylach ar lefel Ardal Lanio neu Rwydwaith (trowch at ein sylwadau yn Atodiad I, paragraff 2).

*Asesiadau Ardal Rhwydwaith*

22. Dylai'r disgrifiadau o gamau lliniaru ar gyfer safleoedd a nodweddion a warchodir (Tablau 9.1 a 10.1) adlewyrchu bod angen i'r holl waith osgoi effeithiau andwyol sylweddol ym mhob achos, gan ystyried amcanion cadwraeth y safleoedd a'r nodweddion dan sylw.
23. Er mwyn osgoi neu leihau risg anaf i forloi, dylid osgoi llongau sy'n defnyddio technoleg canfod safle ddynamig niweidiol.
24. Yn ôl yr asesiad, yr unig effeithiau gweithredol ar dirlun yw canolfannau casglu. Nid yw effaith bosibl seilwaith trosglwyddo ymlaen a chysylltiad grid daearol (yn ystod 'gweithredu') yn cael ei hystyried yn yr Asesiadau Ardal Rhwydwaith. Mae hwn yn wendid sylweddol yn yr asesiad (a'r Cynllun) ac mae'n mentro amcangyfrif yn llawer rhy isel effeithiau posibl gweithgarwch gosod ceblau a allai ymddangos o ganlyniad i'r Cynllun. Mae seilwaith cysylltu grid yn gallu bod yn fawr ac mae gwaith uwchraddio trosglwyddo ymlaen yn gallu arwain at geblau trydan uwchben newydd. Dylid defnyddio dadansoddiad o'r angen am seilwaith felly i bennu a oes angen asesiad pellach o'r goblygiadau daearol. Gallai hyn lywio adolygiad o addasrwydd lleoliadau glanio a fyddai, yn ei dro, yn helpu i osgoi anawsterau difrifol ar lefel prosiect pe byddai llwybrau ceblau cydgysylltu'n arwain at lanio mewn lleoliadau sensitif neu fannau sy'n golygu bod angen seilwaith trosglwyddo ymlaen newydd neu uwchraddio seilwaith presennol.

*Crynhoi Camau Lliniaru ac Effeithiau Amgylcheddol*

25. Dylai ein sylwadau ar yr asesiadau generig ac Ardal Rhwydwaith (paragraffau 19-24) gael eu hystyried hefyd wrth gwblhau'r crynodebau o effeithiau amgylcheddol (adran 11) a'r crynodebau lliniaru nodweddiadol (Adran 12).

*Effeithiau Cyfunol a Chronnus*

26. Nid yw effeithiau'r Cynllun yn gyfunol ac yn gronnus â chynlluniau, rhaglenni neu strategaethau eraill ('cynlluniau eraill') yn cael eu hystyried yn fanwl o gwbl. Nid oes unrhyw asesiad trwyadl o'r rhyngweithio rhwng y Cynllun ac unrhyw gynlluniau eraill y tu hwnt i nodi y bydd angen i'r Cynllun gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, polisïau, egwyddorion a/neu unrhyw fesurau eraill sy'n gysylltiedig â chynlluniau eraill (Atodiad A) a honiad bod y Cynllun yn cyd-fynd â'r holl themâu polisi sydd wedi'u cynllunio i gefnogi ynni adnewyddadwy alltraeth, cynllunio morol, lleihau carbon a gwarchod yr amgylchedd (Adran 11.4). Dylai'r asesiad o'r rhyngweithio rhwng y Cynllun a'r rhestr o bolisïau a'r rhaglenni, gan gynnwys y rheini sy'n berthnasol i sectorau eraill a Chymru, egluro'n fwy penodol y rhyngweithiadau negyddol posibl a sut y dylid lliniaru'r rhain. Mae Cynllun Morol yr Alban yn rhoi enghraifft ddefnyddiol o sut gellid cyflwyno dadansoddiad felly. http://www.gov.scot/Publications/2013/07/7449/8#t5
27. Gellid dadlau bod hyn ar ei bwysicaf yng nghyd-destun cynlluniau datblygu fel cynlluniau trwyddedu olew a nwy, cynlluniau cynhyrchu ynni ac echdynnu cyfanredol. Ni chyfeiriwyd at y rhain yn Atodiad A ond dylid eu hystyried.
28. Dylai'r AAS hefyd ystyried yn systematig y rhyngberthynas rhwng yr holl ffactorau amgylcheddol a ystyrir gan yr AAS.
29. Teitl Adran 11 yw 'Effeithiau Cyfunol a Chronnus' ond mae'n fwy o grynodeb o effeithiau cyffredinol y Cynllun, heb fawr o gyfeirio at effeithiau cyfunol a chronnus, sy'n ei gwneud yn ddryslyd dilyn rhesymeg yr asesiad. Gellid dadlau y dylai casgliadau cyffredinol yr AAS gael eu cyflwyno ar wahân ar ôl yr asesiad o effeithiau cyfunol a chronnus a'r crynodeb o gamau lliniaru cynllun a phrosiect.

**Atodiad IV. Sylwadau CNC ar yr ARhC**

30. Mae CNC yn fras fodlon ar yr ymagwedd at yr ARhC ac yn cytuno â'i gasgliadau cyffredinol. Gan mwyaf, mae'r camau lliniaru lefel cynllun fel petaent yn briodol ac mae'r camau lliniaru lefel prosiect yn rhoi disgrifiad addas o'r mesurau sy'n debygol o fod yn angenrheidiol i osgoi a/neu leihau effeithiau prosiect. Mae CNC yn croesawu cyfleu'n glir rai o'r gofynion a'r camau lliniaru y dylai prosiectau eu dilyn (Adran 10). Bydd yn allweddol i'r rhain gael eu cyfleu'n effeithiol i ddatblygwyr prosiect a rheoleiddwyr.
31. Dylid nodi nad ydym wedi adolygu'n gynhwysfawr wybodaeth am holl safleoedd a nodweddion Cymru yn yr Atodiadau. Dylid defnyddio Taflenni Gwybodaeth Ramsar a ffurflenni Data Safonol ACA ac AGA Natura 2000 (ar y cyd ag Adolygiad 2001 o'r Gyfarwyddeb Adar), sydd oll ar gael i'w llwytho i lawr o wefan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), ac sy'n darparu'r wybodaeth derfynol am nodweddion safle y dylid ei defnyddio i lywio'r Asesiad Priodol.
32. Mae CNC wedi rhoi nifer o sylwadau isod gyda'r nod o wneud yr asesiad yn eglurach ac yn gadarnach.

*Sylwadau Cyffredinol am yr Adroddiad Gwybodaeth Asesiad Priodol a Sgrinio*

35. Mae'n bosibl nad yw sensitifrwydd rhai nodweddion wedi'i lawn werthfawrogi. Er enghraifft, mae sensitifrwydd nodweddion unigol o fathau cynefin (e.e. cynefinoedd rhynglanwol ac uwch-arfordirol) yn gallu amrywio (e.e. mae rhai cynefinoedd Riff yn hynod o sensitif, fel gwelyau *Modiolus*, a riff craigwely 'safonol' yn llai agored i niwed efallai). Er enghraifft eto, nid yw asesiad gwendid '*isel*' o riffiau i lwybr 13 (t. 30) yn cydnabod, er enghraifft, fod effeithiau sylweddol yn bosibl ar riff *Sabellaria alveolata*. Drwy ddarparu amrediad sy'n cwmpasu'r holl wahanol fathau o gynefin Atodiad I, gan gynnwys y rhai mwyaf sensitif, byddai modd cynnal dull mwy cadarn.
36. Sylwn fod rhywfaint o anghysondeb o ran defnyddio terminoleg yn yr *Adroddiad Gwybodaeth Asesiad Priodol a Sgrinio*. Mae anghysondeb o ran defnyddio termau fel 'uchel', 'canolig' ac 'isel' a ddefnyddir yn y naratif a'r tablau yn creu dryswch ac ansicrwydd am lefel y rhagofal a ddefnyddiwyd. Er enghraifft, ar Dabl 9, llwybr 10, crynhoir bod y 'gwendid' yn isel ond mae'r testun yn cyfeirio at 'sensitifrwydd' canolig, a hefyd cydnabyddir mwy o effaith ar rywogaethau sensitif mewn mannau eraill yn y naratif. Dylai'r termau 'risg', 'sensitifrwydd' a 'gwendid' gael eu hegluro a'u defnyddio mewn modd cyson.
37. Ystyriwn fod natur ddisgrifiadol rhywfaint o'r naratif yn ei gwneud yn aneglur sut y deilliwyd yr asesiad o wendid. Er enghraifft, mae Adran 7.2.2 yn rhoi adolygiad o'r llenyddiaeth ond nid yw'n cysylltu hyn â'r datblygiad a'i effeithiau tebygol, gan ei wneud yn aneglur sut y deilliwyd yr asesiad o wendid yn Nhabl 17. Sylwn fod y naratif yn Adran 4.2, o'i gymharu, yn gliriach.
38. Nid yw'n glir a ydy nifer o nodweddion wedi'u hasesu am nad ydynt yn cael eu cydnabod yng '*Nghyfnod Asesu 8*'. Caiff rhai o'r nodweddion hyn eu henwi wedyn yn Nhabl 6 (Morydau a Riffiau) ond nid pob un, a dylai adran 4.1.1. gynnwys yn amlwg y nodweddion canlynol: *1130 Morydau*, *1330 Dolau Heli'r Iwerydd*, *1310 Salicornia*, *1140 Fflatiau llaid a fflatiau tywod heb eu gorchuddio gan ddŵr y môr yn ystod distyll,* a *1170 Riffiau*. Mae'r dull yn creu dryswch, gan ei gwneud yn anodd pennu a ydy effeithiau ar y nodweddion wedi'u nodi'n gywir.
39. Ystyriwn fod un wibdaith llanw yn ddigonol ar gyfer gweithgareddau gosod ceblau. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall fod gweithgareddau a/neu leoliadau penodol ar lefel prosiect lle gall fod angen modelu ychwanegol i bennu terfyn gofodol llwybrau effaith ym mhob achos (e.e. ar gyfer is-orsafoedd).
40. Dylid nodi risg cynyddol cytrefu rhywogaethau estron ac ymledol o longau a pheiriannau'n cael eu symud o wahanol ardaloedd. Nid yw'r camau lliniaru sy'n ofynnol i osgoi aflonyddu biolegol ac felly caniatáu casgliad o ddim effaith andwyol ar nodweddion cynefin yn glir (nid yw'n cael ei enwi yn Adran 10 fel y'i nodir yn Nhabl 6). Dylai'r mesur lliniaru hwn gyfeirio at yr angen i gynnal asesiadau risg bioddiogelwch ar weithgareddau perthnasol.

41. Ystyriwn fod llwybr effaith 4 yn cynrychioli difrod uniongyrchol, yn hytrach nag anuniongyrchol, i gynefinoedd, am fod y difrod yn cael ei achosi gan weithgareddau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Cynllun.
42. Mae'n bwysig bod yr Asesiad Priodol yn ystyried cyflwr a statws cadwraeth nodweddion o safleoedd rhyngwladol ac Ewropeaidd, yn ogystal â'r Amcanion Cadwraeth. Er enghraifft, er bod adran 4.3 yn ystyried yr Amcanion Cadwraeth, nid yw'n ystyried cyflwr a statws cadwraeth nodweddion o safleoedd Ewropeaidd a rhyngwladol.
43. Dylid hefyd ystyried effeithiau ar gynefinoedd Atodiad I y Gyfarwyddeb Cynefinoedd y tu allan i safleoedd gwarchodedig, i sicrhau y cydymffurfir ag Erthygl 10 o'r Gyfarwyddeb[2]. Ystyria CNC fod nod y Gyfarwyddeb Cynefinoedd i gyflawni Statws Cadwraeth Ffafriol cynefinoedd Atodiad 1 yn ymddangos, drwy Erthygl 10, i gysylltu ag adnodd cyfan math o gynefin, o leiaf o ran maint, yn hytrach na bod yn berthnasol i'w bresenoldeb yn y rhwydwaith ACA yn unig.
44. Mae nifer o brosiectau, cynlluniau neu weithgareddau perthnasol heb eu cynnwys yn yr adran *'Effeithiau Cyfunol Posibl'* er enghraifft Cynlluniau Rheoli Traethlin, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, cynlluniau morol Lloegr. Ystyriwn hefyd y dylai'r cyfeiriad at *'ddatblygiadau daearol yn effeithio o bosibl ar nodweddion dyfrgwn'* gael ei gymhwyso i bysgod mudol.
45. Sylwer bod Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn rhannu gwybodaeth ar hyn o bryd am nifer o ardaloedd morol o gwmpas Cymru sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd am ddynodiad posibl yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) newydd. Yn ôl tystiolaeth wyddonol, ystyrir bod yr ardaloedd dan sylw'n cynnal poblogaethau rhyngwladol bwysig o lamhidyddion a rhywogaethau o adar môr. Mae penderfyniadau ynghylch dynodi ACA ac AGA yn nyfroedd Cymru'n cael eu gwneud gan Weinidog Cyfoeth Naturiol Cymru ac nid oes unrhyw benderfyniadau felly wedi'u gwneud eto. Os bydd y gweinidog yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynigion hyn, byddant yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn ddiweddarach yn y flwyddyn, cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch dynodi pob ardal. Pan fydd gweinidogion wedi cymeradwyo ymgynghoriad ffurfiol ar yr ardaloedd hyn (rhagwelir mis Gorffennaf 2015), polisi'r Llywodraeth yw y dylai'r safleoedd posibl gael eu trin fel rhai dynodedig o ran asesiadau, nes bod y Gweinidog wedi penderfynu eu dynodi ai peidio. Gan ddibynnu ar union amseru'r cwblhau, efallai bydd angen cynnwys y rhain yn ARhC y Cynllun. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: http://naturalresourceswales.gov.uk/marine/information-about-our-marine-work/?lang=en neu e-bostiwch marine.n2k@naturalresourceswales.gov.uk

*Sylwadau manwl ar yr AIIR a'r ymagwedd at Asesiad Priodol*

Nodweddion Cynefin:

46. Sylwn fod nifer o nodweddion arfordirol, er enghraifft, *'llaciau twyni llaith*, '*llysiau'r afu petalog*', '*tegeirian y fign galchog*', a'r '*falwen droellog ceg gul*', wedi'u sgrinio allan o'r Asesiad Priodol. Mae nodweddion twyni eraill wedi'u sgrinio i mewn i'r asesiad ac mae anghysondeb rhwng yr asesiadau yn Adran 4, sy'n dod i gasgliad o effaith andwyol ar gyfer cynefinoedd uwch-arfordirol, ac Atodiad A lle mae cynefinoedd arfordirol wedi'u sgrinio allan gan mwyaf (e.e. llystyfiant lluosflwydd glannau caregog ar gyfer Bae Cemlyn). Dylai cynefinoedd arfordirol gael eu sgrinio i mewn i'r Asesiad Priodol.
47. Mae Adran 4.2 'Sensitifrwydd a Gwendid Posibl Nodweddion Diddordeb Cynefin i Weithgareddau Cynllun Gofodol ISLES' yn cynnwys nifer o anghywirdebau, hepgoriadau a/neu ddatganiadau y mae gofyn eu hegluro ymhellach. Mae CNC felly'n cynghori'r canlynol:
    - Mae nifer o gynefinoedd eraill yn ogystal â Riffiau (e.e. gwelyau morwellt) hefyd yn sensitif i gymylogrwydd a mygu cynyddol.

[2] Mae Erthygl 10 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn datgan y bydd Aelod-wladwriaethau'n ymdrechu, lle ystyriant fod angen, yn eu polisïau datblygu a chynllunio defnydd tir ac, yn benodol, gyda'r bwriad o wella cydlyniad ecolegol rhwydwaith Natura 2000, i annog rheolaeth ar nodweddion … sydd o bwysigrwydd mawr i ffawna a fflora gwyllt. Er mwyn i safleoedd fod yn ecolegol 'gydlynol' mae angen iddynt gael cysylltiadau y tu allan i'w hardal ddynodedig, er mwyn sicrhau bod modd cynnal cynefinoedd Atodiad I a rhywgoaethau Atodiad II mewn statws cadwraeth ffafriol yn y tymor hir.

- Mae rhai Cilfachau a Baeau a Morydau Bas Mawr yn cynnwys cynefinoedd tra sensitif nad ydynt o reidrwydd wedi'u cwmpasu gan y cynefinoedd eraill a aseswyd fel yr awgrymwyd (e.e. gwelyau morwellt, gwelyau wystrys, gwelyau maerl).
- Dylid cynnwys colli cynefin uniongyrchol (*llwybr effaith 1*) ymhlith y llwybrau effaith posibl ar gyfer riffiau, cynefinoedd rhynglanwol a chynefinoedd uwch-arfordirol.

Adar

48. Er iddynt gael eu darlunio yn '*Ffigur 4 – Wedi'u sgrinio mewn AGA…*' mae Estyniadau AGA Cymru fel petaent wedi'u sgrinio allan o asesiad pellach (t.10). Anghytunwn â hyn a chynghorwn y dylid cynnwys estyniadau AGA Cymru (fel safleoedd a ddynodwyd yn ffurfiol) yn yr ARhC.
49. Sylwch fod Heligogod yn rhan o'r nodwedd '*casgliad adar môr*' ar Skokholm a dylid mynd â Skomer drwodd i'r cyfnod Asesiad Priodol.
50. Dylai safle Ramsar Cors Fochno a Moryd Dyfi gael ei sgrinio i mewn i'r Asesiad Priodol oherwydd, yn gyffredin ag AGA Moryd Dyfi yr aethpwyd ymlaen â hi, mae ganddo adar gwyllt mudol ('*gwyddau talcenwyn yr Ynys Las*') ymhlith ei nodweddion o ddiddordeb.
51. Cynghorwn nodi rhywogaethau o'r casgliad adar dŵr ar AGA Bae Lerpwl.

Mamaliaid Morol

53. Ystyriwn y byddai pellter o 80km, fel y'i nodwyd yn y dystiolaeth a gyflwynwyd, yn ddull cadarn a rhagofalus wrth ystyried effeithiau sŵn.
54. Sylwn fod yr effeithiau posibl ar rai mamaliaid wedi'u nodi a chroesawn y cynnig i ddefnyddio'r '*protocol awdurdod gwarchod natur statudol*'. Bydd yn bwysig sicrhau gweithredu'r protocol hwn ar lefel prosiect i gynnal casgliadau'r ARhC lefel cynllun.
55. Dylai effeithiau posibl aflonyddwch a achosir gan sŵn a dirgryniad ar rywogaethau ysglyfaeth mamaliaid morol, adar a physgod gael eu hychwanegu at y llwybrau effaith.

Dyfrgwn

56. Mae cynefin cartref dyfrgwn yn aml yn fwy na 10km (defnyddir y ffin yn bellter clustogi yn y Cynllun). Gwyddys bod nodweddion dyfrgwn sy'n gysylltiedig â Safleoedd Ewropeaidd daearol yn defnyddio'r arfordir i chwilio am fwyd. Dylai'r safleoedd daearol perthnasol gael eu cynnwys felly yn yr Asesiad Priodol.
57. Mae'r llwybrau effaith canlynol wedi'u hepgor o'r ARhC a dylid eu cynnwys – halogiad gwenwynig (Llwybr cyf. 12 a 13) a halogiad diwenwyn (Llwybr cyf. 14). Byddai'r rhain yn effeithio'n bennaf ar rywogaethau ysglyfaeth ond gallant hefyd effeithio ar allu'r dyfrgi i chwilota am fwyd mewn lleoliadau a ddefnyddid o'r blaen.
58. Dylid hefyd ystyried strwythurau sy'n debygol o achosi caethiwo.

Ystlumod

52. Dylai nodweddion diddordeb ystlumod gael eu sgrinio i mewn i'r asesiad am fod y sail am sgrinio nodweddion diddordeb ystlumod allan yn anghywir, gan ddatgan bod ystlumod yn annhebygol o fudo ar draws Môr Iwerddon a chwilota am fwyd mewn cynefinoedd arfordirol. Yn groes i'r datganiad, gwyddys bod ystlumod yn chwilota alltraeth ac yn gaeafgysgu a chlwydo yn y parth arfordirol (BSG Ecology, 2014).